**Academi Grefft Prime Video**

Rhaglen Sylfaen ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffilm a theledu

**TROSOLWG O'R ACADEMI**

Ydych chi'n barod i ymgymryd â'ch rôl fawr gyntaf yn y diwydiant?

Os ydych chi wedi ymrwymo i weithio yn y diwydiant ffilm a theledu, yn hyblyg i weithio ym mhob adran gydag uchelgais i ddatblygu arbenigedd mewn crefft, yna dyma'r cyfle i chi. Byddwch yn cael eich talu wrth i chi ddysgu!

**Amlinelliad o'r cwrs**

Mae gan Academi Grefft Prime Video, sy'n cael ei gyflwyno gan yr Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol, lefydd i 25 o bobl yn Llundain, Caerdydd a Glasgow ar hyfforddeiaethau a phrentisiaethau â thâl yn gweithio ar Gyfres Wreiddiol Amazon yn y DU neu gyda'n partneriaid cyflenwi Prime Video ac Amazon Studios.

Bydd Academi Grefft Prime Video yn cynnig hyfforddeiaethau i'r rhai sydd â diddordeb mewn hyfforddiant sylfaen eang a rolau crefft. Ac yn ogystal, bydd cyfle i'r rhai y sy'n well ganddyn nhw ddilyn y llwybr prentisiaeth wneud cais am brentisiaeth ar y pwynt hwn. Am y tro cyntaf, rydyn ni'n cynnal cynllun peilot o brentisiaethau hyblyg a byddwn yn cynnig y cyfle i ymgeisio am Gydlynydd Cynhyrchu Cyfryngau Lefel 4. Ar hyn o bryd mae'r cyfle am brentisiaeth ar gael yn ein hwb yn Beaconsfield (Llundain) yn unig. O ran rheoli cynyrchiadau, bydd yr hyfforddeiaeth yn cael ei chynnig fel cymhwyster prentisiaeth. Hyfforddeiaethau fydd pob disgyblaeth arall.

Yn 2022 cyhoeddodd Prime Video "Prime Video Pathway" (PVP), menter hyfforddi amlochrog gwerth £10 miliwn, yr un cyntaf o'i bath a gynlluniwyd i agor mynediad at swyddi yn y diwydiant ffilm a theledu ar draws y DU. Academi Grefft Prime Video yw un o fentrau allweddol y PVP ac wedi'i chyllido'n gyfan gwbl gan Prime Video. Mae Prime Video yn cydweithio'n agos gydag ysgol ffilm a theledu fwyaf blaenllaw y DU, sef yr Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NTFS) i helpu i gefnogi'r hyfforddeion a'r prentisiaid gyda chyfleoedd, hyfforddiant a chysylltiadau.

Bydd 25 o ymgeiswyr llwyddiannus yr Academi yn:

- Cael contract 12-mis gyda'r NFTS
- Gweithio ar rai o'r cynyrchiadau teledu mwyaf, wedi'u sgriptio a heb eu sgriptio, sydd wrthi'n cael eu cynhyrchu yn y DU ar gyfer Prime Video neu gan bartneriaid dibynadwy.
- Dysgu arbenigedd – rydyn ni'n arbennig o awyddus i glywed gan bobl sydd â diddordeb mewn Rheoli Cynyrchiadau, oherwydd byddwn yn cynnig prentisiaethau yn y maes hwn.
- Cael mynediad at hyfforddiant a chymorth gan y NFTS, sy'n cael ei ystyried yn aml fel un o'r prif ysgolion ffilm yn y byd.
- Cael Tystysgrif NFTS mewn Cynhyrchu neu brentisiaeth Cydlynydd Cynhyrchu Cyfryngau ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus.

Rydyn ni'n croesawu'n arbennig geisiadau gan grwpiau sydd wedi'u heithrio'n hanesyddol; h.y. y rhai o leiafrifoedd ethnig, talent anabl, y rhai o gefndiroedd economaidd cymdeithasol is, a menywod mewn rolau lle bu dynion yn dominyddu'n y gorffennol.

Rydyn ni'n darparu cymorth i'r rhai ag anghenion hygyrchedd ac addasiadau yn ystod pob cam o'r broses ymgeisio.

**Beth mae'r rhaglen yn ei gynnwys?**

**Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cyflogi gan y NFTS ar gontract cyfnod penodol o 12 mis ac yn ennill £33,800.** Bydd y gyflogaeth ar gyfer prentisiaethau yn debygol o bara 15 mis.

Bydd Rheolwr Academi Grefft Prime Video, sydd yn y NFTS, wrth law i roi cymorth a chyngor i'r hyfforddeion drwy gydol y rhaglen, gyda mentoriaeth gan Benaethiaid Adrannau NFTS a mynediad at diwtora NFTS. Bydd y NFTS yn rheoli ymlyniad pawb sy'n cymryd rhan ar gynyrchiadau teledu.

Yn ystod yr hyfforddeiaeth byddwch naill ai'n gweithio ar **Gyfres Wreiddiol Amazon** yn y DU neu gyda'n **partneriaid cyflenwi Prime Video ac Amazon Studios** neu byddwch yn cymryd rhan mewn **hyfforddiant NFTS** (naill ai'n bersonol yn un o'n hybiau neu ar-lein), neu'n cefnogi gweithgaredd cynhyrchu i fyfyrwyr.

Ar ddechrau'r rhaglen hon, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael hyfforddiant gan y NFTS yn Beaconsfield, Caerdydd neu Glasgow, ac yn cael profi amrywiaeth o adrannau cynhyrchu, o fewn ffilm a theledu, wedi'u sgriptio neu heb eu sgriptio, i ddatblygu eu dealltwriaeth ehangach o'r broses gynhyrchu. Bydd hyfforddiant yn digwydd yn hybiau'r NFTS, yn ogystal ag ar-lein drwy gydol y flwyddyn. Mae uchafbwyntiau eleni wedi cynnwys dosbarthiadau meistr gyda Chynhyrchwyr Gweithredol Three Mothers, Two Babies and a Scandal, gyda'r gwneuthurwr ffilmiau ac enillydd Gwobr BAFTA, Cherish Oteka, a'r tîm cynhyrchu a'r comisiynydd y tu ôl i fformat llwyddiannus newydd y BBC, The Traitors. Mae hyfforddeion a phrentisiaid hefyd yn cael mynediad at Ddosbarthiadau Meistr ar draws y NFTS, sydd eleni wedi cynnwys yr awdur, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd sydd wedi ennill Oscar, Chris McQuarrie, yr awdur Jack Thorne, sydd wedi ennill sawl BAFTA yn ogystal â'r awdures a'r actores lwyddiannus Phoebe Waller-Bridge.

Un o dri lleoliad y NFTS yn y DU fydd cartref yr ymgeiswyr llwyddiannus - yn Beaconsfield (Llundain), Glasgow neu Gaerdydd, drwy gydol yr hyfforddeiaeth 12 mis/prentisiaeth 15 mis. Lleoliad y brentisiaeth Cydlynydd Cynhyrchu fydd Beaconsfield/ardal Llundain.

Oherwydd natur y cynhyrchiad, nid oes modd cadarnhau pa gynyrchiadau fydd hyfforddeion/prentisiaid yn gweithio arnyn nhw ymlaen llaw neu ym mha leoliad. Mae cynyrchiadau yn cael eu lleoli ar draws y DU, felly dylai hyfforddeion/prentisiaid fod yn barod i gymudo neu symud dros dro ar adegau yn ystod eu hyfforddeiaeth. Byddwn yn gwneud ein gorau i leihau'r angen i deithio a byddwn yn ceisio dod o hyd i leoliadau i chi sy'n agos at eich cartref yn y lle cyntaf. Os bydd angen symud dros dro, byddwn yn ystyried ceisiadau am fwrsarïau i gefnogi hyfforddeion/prentisiaid yn ôl yr angen. Rydyn ni hefyd yn cynnig bwrsarïau i gefnogi hyfforddeion/prentisiaid gyda gwersi gyrru.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael profiad mewn meysydd fel Rheoli Cynyrchiadau, Cyfarwyddo Cynorthwyol, yr Adran Gelf, Lleoliadau, Camera, Sain,

Ôl-gynhyrchu, TG, Cynaliadwyedd, Trafnidiaeth, Goleuo, Grip a Gwisgoedd.

Yn 2023, cafodd hyfforddeion gyfleoedd ar raglenni Prime Video fel The Devil's Hour, The Rig a The Lord of the Rings: The Rings of Power. Cafwyd cyfleoedd hefyd ar gynyrchiadau fel Call the Midwife, Shetland, Panorama, This Farming Life a Married at First Sight. Gweithiodd yr hyfforddeion gyda nifer enfawr o gwmnïau cynhyrchu gwych, gan gynnwys Storyboard Studios, Firecrest, Blazing Griffin, View 35 Films, Wild Mercury Productions, IWC, ITV Studios, BBC Studios, Neal Street Productions, CineArk, Sky, STV, VAL TV, Voltage TV, Hartswood Films, Studio 99, Ventureland, CPL Productions a Wall to Wall.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, bydd NFTS a Prime Video yn gweithio gyda'r cyfranogwyr unigol i gynllunio a chefnogi eu camau nesaf tuag at waith llawn amser, gobeithio o fewn y diwydiannau sgrin. Er nad oes unrhyw waith na chyfleoedd pellach yn cael eu gwarantu yn ystod y cam hwn.

Daw hyfforddiant y brentisiaeth i benllanw drwy ymgymryd â phrosiect cynhyrchu ar gynhyrchiad Cyfres Wreiddiol Amazon yn y DU, gyda phartneriaid cyflenwi Prime Video a Amazon Studios neu ar brosiect Meistri i fyfyrwyr yn y NFTS. Mae'r prosiect yn sail i'r asesiad ar y diwedd sy'n cwblhau'r brentisiaeth. Bydd prentisiaid yn dangos tystiolaeth o'u gwaith a'r hyn a ddysgwyd mewn portffolio ar-lein yn barhaus, a bydd eu cynnydd yn cael ei gefnogi'n rheolaidd gan fentoriaid NFTS tra byddant ar leoliad.

**Gofynion Mynediad**

Rydyn ni'n croesawu ymgeiswyr sy'n angerddol ac wedi ymrwymo i gael gyrfa mewn ffilm a theledu. Byddent yn gyffrous i ddysgu am yr holl agweddau gwahanol ffilm a theledu sydd wedi'u sgriptio neu heb eu sgriptio a bod yn agored i gyfleoedd mewn gwahanol adrannau. Byddai ganddyn nhw agwedd wych o 'allu gwneud', yn gweithio'n effeithiol ar eu pen eu hunain a/neu ar y cyd mewn lleoliadau grŵp i gyflawni nodau. Rhaid i ymgeiswyr fod â'r awydd a'r penderfyniad i gwblhau tasgau gofynnol y rôl. Dylai ymgeiswyr allu dangos sut maen nhw'n cynnal eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r tueddiadau diweddaraf, sioeau poblogaidd ac ymgysylltu â defnyddwyr (gall hyn fod drwy gyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd etc.)

Rhaid i ymgeiswyr gael dim mwy na chyfanswm o 6 mis o brofiad cyflogedig, gyda'i gilydd, yn gweithio ar gynhyrchiad proffesiynol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. Nid yw'r cynllun hwn ar eich cyfer chi os oes gennych chi lawer o brofiad yn eich adran o ddewis yn barod neu os ydych chi'n edrych i fod yn gyfarwyddwr/sgrin-awdur/ymchwilydd.

Sylwer na allwn noddi ymgeiswyr ar gyfer y rolau hyn, felly dim ond ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu hawl i fyw a gweithio yn y DU y gallwn eu derbyn. Os nad oes gennych hawl i weithio yn y DU, ni fyddwn yn gallu symud eich cais yn ei flaen.

Yn NFTS, mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydyn ni'n gyflogwr cynhwysol sydd wedi ymrwymo i gyfle cyfartal, ac i ddatblygu gweithlu sy'n ddiwylliannol amrywiol. Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn sefydliad gwrth-hiliol ac i gynyddu ein cynrychiolaeth o staff o gefndiroedd ethnig amrywiol. Rydyn ni'n annog yn gryf geisiadau o bob cefndir.

**Ffioedd a Chyllid:**

**Nid oes unrhyw ffioedd i'w talu ar gyfer y cynllun hwn.**

**Fel hyfforddai yn y NFTS, byddwch yn cael cyflog o £33,800.**

Tra'n gweithio fel hyfforddai, byddwch yn cael hyfforddiant ac yn cael eich talu am eich oriau gwaith arferol (fel arfer 35 – 55 awr yr wythnos).

Bydd gennych hefyd hawl i **20 diwrnod o wyliau â thâl** bob blwyddyn, ynghyd â gwyliau banc.

**Diwrnodau Agored Ar-lein**

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais ac eisiau gwybod mwy, dewch i un o'n diwrnodau agored ar-lein. Byddwch yn cwrdd â rhai o'r hyfforddeion presennol a bydd cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau.

Sut i wneud cais

**Bydd angen i chi gyflwyno un PDF cyfunol gan gynnwys:**

- **Eich CV** – ni ddylai fod yn fwy na dwy ochr. Cofiwch gynnwys y cymwysterau addysg diweddaraf.
- **Llythyr eglurhaol** sy'n manylu ar pam rydych chi'n gwneud cais a'r hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni fel rhan o'r hyfforddeiaeth. Rydyn ni'n argymell y dylai fod rhwng 300 a 500 gair. Byddwch yn glir pa un o'r hybiau yn **Beaconsfield, Caerdydd neu Glasgow** fyddai eich lleoliad o ddewis a pha grefft(au) yn benodol y mae gennych ddiddordeb mewn dysgu.
- Heb fod dros 500 o eiriau, dywedwch wrthym hefyd beth rydych chi'n ei wylio a'i fwynhau ar hyn o bryd – a'ch hoff ffilmiau a rhaglenni teledu erioed.
- Rhowch wybod i ni hefyd os oes angen i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol tra byddwch yn gwneud cais neu'n dechrau ar yr hyfforddeiaeth/prentisiaeth, fel y gallwn wneud y broses hon a'r hyfforddeiaeth/prentisiaeth mor gynhwysol â phosib.
- **Geirda ysgrifenedig** wedi'i gwblhau gan rywun sy'n adnabod eich gwaith a'ch ymrwymiad i weithio ym maes ffilm a theledu (gall fod yn diwtor, athro neu athrawes, pennaeth presennol, mudiad gwirfoddol etc. a all ddangos tystiolaeth o'ch angerdd at deledu).

**Dylid anfon hwn fel un PDF at primeacademy@nfts.co.uk**

**Cwblhewch y ffurflen cyfle cyfartal hon ar-lein hefyd:**
https://www.surveymonkey.co.uk/r/CJ9CZXL

Mae'r cais ar gael mewn fformatau eraill at ddibenion hygyrchedd. Anfonwch e-bost at primeacademy@nfts.co.uk i ofyn am fformat arall.

Sicrhewch eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus oherwydd, os na fyddwch yn ei gyflwyno yn y ffordd hyn, ni fydd eich cais yn cael ei ystyried. Os oes gennych anghenion ychwanegol ac angen cymorth gyda'ch cais, rhowch wybod i ni.

Bydd ceisiadau'n cau am hanner nos ddydd Iau 14eg Medi. Ni fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried. Rydyn ni'n derbyn nifer fawr o geisiadau felly byddem yn eich annog i wneud cais yn gynnar.

**Y Broses Ddethol**

**Cam 1**

Bydd yr Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol yn darllen pob cais cymwys ac yn penderfynu ar restr fer.

Byddwn yn chwilio am ymgeiswyr sy'n dangos lefel o ymrwymiad, angerdd a sgiliau o brofiadau'r gorffennol. Rhowch fanylion diddordebau neu weithgareddau eraill rydych wedi'u gwneud a fyddai'n gaffaeliad i'r diwydiant ffilm a theledu. Mae sgiliau trosglwyddadwy yn bwysig, yn ogystal ag unrhyw waith allgyrsiol – e.e. gwaith gydag elusennau, ar gyfryngau cymdeithasol a chynhyrchu cynnwys yn annibynnol.

Cyn cael eu cymeradwyo i fynychu'r gweithdy dethol, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'u hawl i weithio yn y DU.

**Cam 2**

Bydd hyd at 50 o ymgeiswyr ar gyfer y rolau hyfforddai a phrentisiaeth yn cael eu rhoi ar y rhestr fer i fynychu gweithdy dethol a fydd yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb dros y tridiau rhwng 8fed-10fed Tachwedd yn yr Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol yn Beaconsfield. Peidiwch â gwneud cais am yr hyfforddeiaeth/prentisiaeth os nad ydych ar gael ar y dyddiadau hyn. Byddwch yn cael gwybod erbyn 10fed Hydref os ydych wedi symud ymlaen i'r cam hwn. Mae bwrsarïau ar gael i helpu'r rhai sydd angen cymorth ariannol i dalu'r costau teithio a llety o fynychu'r gweithdy.

Bydd y gweithdy dethol yn cynnwys dysgu am y diwydiant ffilm a theledu a chymryd rhan mewn gweithdai ymarferol. A chyfweliad.

Ar ôl y gweithdy dethol, bydd y NFTS yn ysgrifennu at bob ymgeisydd i'w hysbysu o'r canlyniad erbyn diwedd mis Tachwedd.

**Bydd cytundebau hyfforddeiaethau yn dechrau ar 1af Ionawr 2024 ac yn para tan 31ain Rhagfyr 2024. Bydd cytundebau prentisiaethau yn dechrau ar 1af Ionawr 2024 ac yn para tan tua 31ain Mawrth 2025.**

**CWESTIYNAU CYFFREDIN**

**Gwnewch bob ymdrech i fynychu un o'n sesiynau briffio – [https://nfts.co.uk/events](https://nfts.co.uk/events) – fwy na thebyg, bydd yn ateb y rhan fwyaf o'ch cwestiynau ac yn eich helpu i ddeall y broses a rhoi cyfle gwell i chi fod yn llwyddiannus.**

**C: Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?**
**A:** 14 Medi 2023

**C: Beth sy'n digwydd os ydw i'n gwneud cais ar ôl y dyddiad cau?**
**A:** Ni fydd eich cais yn cael ei ystyried. Mae'r cyfle hwn yn agored i geisiadau am wyth wythnos ac ni fydd unrhyw geisiadau hwyr yn cael eu hystyried.

**C: Pryd fyddai'n clywed nôl am fy nghais?**
**A:** Bydd ymgeiswyr llwyddiannus sy'n symud ymlaen at y gweithdy dethol yn cael gwybod erbyn 10fed Hydref.

**C: Pryd fydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal?**
**A:** Cynhelir cyfweliadau fel rhan o'r gweithdy dethol dros y tridiau rhwng 8fed-10fed Tachwedd.

**C: Ble fydd y gweithdy dethol a'r cyfweliadau yn cael eu cynnal?**
**A:** Yn yr Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol yn Beaconsfield.

**C: Beth sy'n digwydd os yw fy nghais yn llwyddiannus, ond nid wyf yn byw yn agos i ble mae'r cynyrchiadau neu'r cwrs hyfforddi yn digwydd?**
**A:** Mae angen i chi fod - neu symud i fod - yn agos at un o leoliadau'r NFTS ar draws y DU yn Beaconsfield, Caerdydd neu Glasgow i elwa'n llawn o'r hyfforddeiaeth sydd ar gael. Efallai y bydd angen i chi gymudo neu hyd yn oed symud oddi cartref dros dro i weithio ar gynhyrchiad.

**C: Os ydw i'n symud, a fydd y rhaglen yn helpu gyda ffioedd symud neu dai?**
**A:** Ni allwn gefnogi gyda ffioedd symud neu dai felly bydd angen i chi fod o fewn pellter cymudo i un o'n tri hwb (Beaconsfield (Llundain), Caerdydd neu Glasgow). Mae cynyrchiadau'n digwydd ar draws y DU, felly dylai hyfforddeion fod yn barod i gymudo neu symud dros dro ar adegau yn ystod eu hyfforddeiaeth. Byddwn yn gwneud ein gorau i leihau'r angen i deithio a byddwn yn ceisio dod o hyd i leoliadau i chi sy'n agos at eich cartref yn y lle cyntaf. Os oes angen symud dros dro i weithio ar gynhyrchiad, byddwn yn ystyried ceisiadau am fwrsarïau i gefnogi hyfforddeion yn ôl yr angen.

**C: Beth fydd fy oriau?**
**A:** Yn ystod eich hyfforddiant bydd eich oriau wythnosol yn seiliedig ar wythnos safonol o 35 awr. Serch hynny, yn ystod lleoliadau cynhyrchu, gall hyn fod hyd at 55 awr yr wythnos.

**C: Os ydw i'n brysur neu'n gweithio ar ddyddiadau'r gweithdy dethol, ydw i'n gallu cymryd rhan yn y rhaglen hon o hyd?**
**A:** Na, mae mynychu'r tridiau hyn yn rhan orfodol o'r broses.

**C: Rydw i o dan 18 oed, ond rydw i wir eisiau dechrau gweithio, ydw i'n gallu gwneud cais?**
**A:** Am resymau iechyd a diogelwch, rhaid i bob ymgeisydd fod yn 18 oed neu drosodd ar 1 Ionawr 2024 neu cyn hynny.

**C: A yw wedi'i anelu at y rhai sy'n gadael yr ysgol/coleg/prifysgol yn unig?**
**A:** Er bod gennym isafswm oedran o 18, nid oes uchafswm oedran. Byddem yn croesawu ceisiadau gan y rhai sydd â sgiliau trosglwyddadwy a allai fod yn edrych i symud i'r diwydiant Ffilm a Theledu.

**C: Pa mor hir fydd yr hyfforddeiaeth yn para?**
**A:** Mae'r hyfforddeiaeth yn para 12 mis. Mae'r brentisiaeth yn debygol o fod yn 15 mis. Byddwch ar gontract llawn amser am gyfnod yr hyfforddeiaeth/prentisiaeth, felly bydd angen i chi fod ar gael i weithio ac astudio am y cyfnod cyfan ac ni ddisgwylir i chi ymgymryd â gwaith allanol.

**C: Beth yw'r tâl?**
**A:** Byddwch yn cael cyflog o £33,800 cyn treth.

**C: Os ydw i'n llwyddiannus, pryd fydda i'n dechrau?**
**A:** Y dyddiad dechrau fydd 1 Ionawr 2024.

**C: Ydw i'n gymwys i gael gwyliau?**
**A:** Fel rhywun sy'n cael ei gyflogi gan yr Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol, byddwch yn cael 20 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn ynghyd â gwyliau banc. Bydd angen trafod pryd y gallwch ei gymryd a chytuno arno.

**C: Rydw i'n gwybod fy mod i eisiau bod yn Gyfarwyddwr / Sgrin-awdur – a yw hwn y peth iawn i fi? Rydw i eisiau gweithio mewn swyddi golygyddol – e.e. ymchwilydd, ai dyma'r cwrs iawn i fi?**
**A:** Na, mae'r rhaglen ar gyfer pobl sydd eisiau gweithio mewn cynhyrchu ac eisiau datblygu arbenigedd mewn crefft.

**C: Rydw i eisoes yn gweithio yn fy arbenigedd o ddewis, ai dyma'r peth iawn i fi?**
Cynllun hyfforddi sylfaen yw hwn lle bydd hyfforddeion yn cael trosolwg o nifer o adrannau gwahanol. Mae potensial i ddatblygu arbenigedd o fewn y flwyddyn ond, os ydych chi'n canolbwyntio ar un maes, ac yn gweithio yn eich dewis faes yn barod, nid dyma'r cynllun iawn i chi.

**C: Mae'r wefan yn dweud eich bod yn croesawu ceisiadau gan grwpiau a eithriwyd yn hanesyddol. Beth mae hynny'n ei olygu?**
**A:** Mae'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rydyn ni'n edrych arnyn nhw'n ymwneud yn bennaf â'r nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb y DU 2010.

**Dylech ddefnyddio'r rhestr ganlynol fel canllaw o ran pa grwpiau a eithriwyd yn hanesyddol rydyn ni'n ceisio mynd i'r afael â nhw:**

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

**Yn ychwanegol at y nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cydnabod gan y Ddeddf, mae'r NFTS hefyd yn ceisio mynd i'r afael â grwpiau a eithriwyd yn hanesyddol yn y meysydd canlynol:**

- Cyfranogiad rhanbarthol
- Cynhwysiant economaidd-gymdeithasol
- Cyfrifoldebau gofalu

**C: Pa addasiadau a chymorth hygyrchedd sydd ar gael?**
**A:** Ein nod yw cefnogi anghenion ein hymgeiswyr byddar, anabl a niwrowahanol a byddwn yn gweithio gyda'r unigolyn (unigolion) fesul achos i bennu eu hanghenion. Yn y gorffennol rydyn ni wedi gwneud darpariaethau sydd wedi cynnwys: cymorth ychwanegol gyda'r broses ymgeisio a rhoi cymorth allanol yn ystod yr hyfforddeiaeth.

**C: Beth yw'r gwahaniaeth rhwng hyfforddeiaeth a phrentisiaeth?**
**A**: Bydd yr hyfforddeiaeth yn eich ymgysylltu â hyfforddiant a chyflogaeth ar leoliadau dros gyfnod o 12 mis. Byddwch yn gallu ennill credydau am y gwaith a wnaed ar y cynyrchiadau rydych yn gweithio arnyn nhw. Mae'r brentisiaeth yn para tua 15 mis. Byddwch hefyd yn cael eich rhoi ar yr un

cynyrchiadau â'ch cydweithwyr dan hyfforddiant. Mae hyfforddiant a dogfennaeth eich gwaith tra byddwch ar leoliad yn cadw at y safon prentisiaeth ar gyfer Cydlynydd Cynhyrchu Cyfryngau. Mae’n gymhwyster ffurfiol, sy’n rhoi dyfarniad prentisiaeth uwch i chi ar y diwedd.

**C: Pa waith sydd ynghlwm â “phasio/cymhwyso” ar gyfer prentisiaeth?**
A: Mae gan y brentisiaeth asesiad ar y diwedd. Y prif ran ohono yw ymgymryd â phrosiect cynhyrchu. Bydd y prosiect hwn yn cael ei wneud naill ai ar gynhyrchiad proffesiynol neu ar un o gynyrchiadau meistri myfyrwyr yn y NFTS. Bydd angen i chi ddogfennu eich prosiect ac ysgrifennu adroddiad ar y diwedd. Bydd yr hyfforddiant yn eich paratoi ar gyfer hyn, a byddwch yn cael cymorth mentora parhaus drwy gydol y brentisiaeth ac yn ystod cyfnod y prosiect. Unwaith y daw'r prosiect i ben, byddwch yn ysgrifennu adroddiad ac yn cael eich asesu mewn cyflwyniad ac yn ateb cwestiynau arno.

**C: A fydd hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y brentisiaeth?**
A: Er y bydd rhywfaint o orgyffwrdd yn yr hyfforddiant rhwng hyfforddeiaethau a phrentisiaethau, bydd hyfforddiant y brentisiaeth yn fwy penodol ym maes cydlynu cynhyrchu, yn ogystal â dysgu am holl agweddau ar gynyrchiadau ffilm a theledu ynghyd â'r hyfforddeion.

**C: Pam fod contract y brentisiaeth yn hirach?**
Mae'n ofyniad cyfreithiol i hyfforddiant prentisiaeth bara am 12 mis o leiaf. Ar ôl hynny bydd y cyfnod asesu, lle fyddwch yn cael eich cyflogi ar yr un cyflog â'r cyfnod hyfforddi/lleoliad ac yn magu profiad ychwanegol yn ystod eich prosiect.

**C: A fyddwch chi’n cynnig hyfforddeiaethau yn ogystal â phrentisiaethau mewn Rheoli Cynyrchiadau?**
**A:** Ar gyfer rheoli cynyrchiadau, byddwn yn cynnig prentisiaeth yn unig fel opsiwn.

**C: Beth sy’n digwydd ar ddiwedd yr hyfforddeiaeth neu’r brentisiaeth?**
**A:** Ar ôl cwblhau’r rhaglen, bydd NFTS a Prime Video yn gweithio gyda'r cyfranogwyr unigol i gynllunio a chefnogi eu camau nesaf. Ac, wrth gwrs, byddwch wedi magu sgiliau a phrofiad y mae galw mawr amdanyn nhw yn y diwydiant. Ni allwn addo y cynigir gwaith pellach i chi.